Cyfle Cyfartal

Mae gan yr ysgol bolisi Cydraddoldeb Cyfle a pholisi Amryfaliaeth Hiliol sydd yn dylanwadu ar bob agwedd o'i gwaith. Ymdrechir yn gyson i hyrwyddo dealltwriaeth a pharch tuag at unigolion o bob cefndir a diwylliant.

Pan fo angen fe wneir pob ymdrech, mewn cydweithrediad a'r Awdurdod Addysg Lleol, i ymateb i ofynion addysgol neu gorfforol arbennig. Yn wir, y mae'r ysgol hon wedi ei dynodi ar gyfer disgyblion sydd ag anableddau corfforol (cymedrol) oddi mewn i ddalgylch y Gader ac i'r perwyl hynny gwnaed addasiadau i'r adeilad a darparwyd ystafell therapi bwrpasol ar gyfer disgyblion anabl.

Y mae gan yr ysgol hefyd Uned fechan dynodedig ar gyfer plant awtistig ac `rydym yn gweithio i datblygu arbenigedd yn y maes hwn.